


Anrhydeddus Gymdeithas
Y Cymmrodorion
Sefydlwyd 1751



The Honourable Society
Of Cymmrodorion
Founded 1751

NODDWR/PATRON: EI UCHELDER BRENHINOL TYWYSOG CYMRU/ HRH THE PRINCE OF WALES

Annwyl Gymmrodor

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2013 am 6 o'r gloch ar Ddydd Mawrth, 14 Mai yn y Medical Society of London, 11 Chandos Street, London W1G 9EB.

Mae'r Gymdeithas yn parhau i ffynnu gyda llawer o ddarlithoedd arwyddocaol yn cael eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn. Mae'r Ysgrifennydd bron â chwblhau'r rhaglen am y tymor nesaf a mae hwn yn gaddo bod yn llawn darlithoedd difyr hefyd.

Mae'r Gymdeithas yn tyfu, gyda 30 o aelodau newydd yn ymuno yn 2012. Fel y nodwch o'r cyfrifon amgaeedig, fe gynilodd y Gymdeithas warged o dros £10,000. Er bod hwn yn ymddangos yn fawr, rhaid nodi bod dros hanner y gwarged yn dod o ad-daliad treth Rhodd Gymorth sydd wedi ei godi dros dair blynedd. Mae'r Cyngor hefyd wedi bod yn ddyfal yn cadw ein gwariant i lawr

Rhai blynyddoedd yn ôl bu'r Gymdeithas yn cyfrannu at greu'r Bywgraffiadur Cymreig a fe fyddwch yn falch i nodi, rwy'n siŵr bod y Gymdeithas yn gweithio gydag eraill i sefydlu prosiect arall (tebygol o fod ym maes addysg). Rydym yn falch bod peth o'r adnoddau a greawyd gennym dros y blynyddoedd yn cyfrannu at ddyfodol Cymru.

Fel mae'r dilynol yn dangos mae'r Gymdeithas wedi bod yn datblygu ei gweithgarwch ar y we. Yn gyntaf, fel canlyniad i bartneriaeth gyda'r Llyfrgell Genedlaethol (a wnaeth y gwaith gyda chefnogaeth JISC a Llywodraeth Cymru) yr ydym yn gallu rhoi mynediad i argraffiadau digidol o'r Trafodion a argraffwyd rhwng 1900 a 2004. Mae'r rhain i'w gweld yn "<http://welshjournals.llgc.org.uk/>". Yn ychwanegol, fel canlyniad i gydweithio pellach gyda'r Llyfrgell Genedlaethol, mae'r Bywgraffiadur Cymreig i'w gael ar y we hefyd yn "<http://wbo.llgc.org.uk/en/index.html>". Mae'r golygydd, Dr Brynley F. Roberts wastad yn falch o dderbyn awgrymiadau o enwau pobl i'w cynnwys yn y Bywgraffiadur (a hefyd enwau unrhyw un sy'n fodlon helpu cyfieithu cofnodion).

Cymerwch y cyfle i bori gwefan y Gymdeithas yn "www.cymmrodorion.org". Cewch wybodaeth am y Gymdeithas, ei hanes, y rhaglen am weddill y sesiwn hon a manylion ein darlithoedd (mae rhai ar gael fel "podlediad" er mwyn i chi glywed y ddarlith – hyd yn oed os nad oeddech yn bresennol). Mae ein gwefan ar y gweill ac os oes gennych syniadau ar sut y gellir ei wella gadewch i ni wybod. Cysylltwch â "membership@cymmrodorion.org".

Gyda dymuniadau goreu

Prys Morgan
Llywydd

Ebrill 2013